# Agor y Llyfr

CYMDEITHAS Y BEIBL



Rhannu straeon Beiblaidd gyda phlant ym mhob man, trwy rym adrodd storïau.



# Croeso i Agor y Llyfr!

**Mae gan stori Feiblaidd wedi'i hadrodd yn dda y pŵer i danio'r dychymyg, ysbrydoli archwilio, rhoi gobaith, creu gwên, dysgu gwersi pwysig a chysylltu cenedlaethau.**

## Beth yw Agor y Llyfr?

Mae Agor y Llyfr yn brosiect stori cyffrous lle rhennir straeon Beiblaidd gyda phlant mewn ffordd sy'n hwyl, yn rhyngweithiol a chofiadwy. Fel gwesteion a wahoddwyd i'r ysgol, mae timau storïwyr yn defnyddio **rhaglen Agor y Llyfr** i baratoi a chyflwyno Stori Feiblaidd 10 i 15 munud wedi ei sgriptio ar gyfer gwasanaeth ysgol, gan gynnwys y plant gymaint ag y bo modd.

Mae timau storïwyr yn cynnwys gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi a'u recriwtio'n ddiogel gan eglwysi a sefydliadau lleol, sy'n ymrwymo i ddilyn **Cod Ymarfer Agor y Llyfr**.

## Rhaglen Agor y Llyfr

Mae storïwyr yn defnyddio *Beibl y Storïwr* Agor y Llyfr a *Llawlyfr y Storïwr*. Mae *Beibl y Storïwr* yn cynnwys 90 stori, gan ddechrau yn Genesis ac yn mynd yr holl ffordd i'r Datguddiad.

Mae'r *Llawlyfr* yn darparu popeth sydd angen i storïwyr ei ddweud er mwyn creu gwasanaeth llawn. Mae croeso a chyflwyniad yn arwain i mewn i'r stori a ddarllenir, ac yna eiliad dawel i fyfyrio a rhyfeddu, gan gloi gyda gweddi a offrymir.

# Ein Cod Ymarfer

**Mae pob Storïwr yn cytuno i:**

- Lynu at y sgript a chyflwyno'r stori yn syml, gan ddilyn *Llawlyfr* Agor y Llyfr
- Gadael i bob stori siarad drosto'i hun, fel stori Feiblaidd, nid fel pregeth
- Cydgysylltu'n agos ac yn sensitif ag ysgolion, a bod yn ystyriol o'r amgylchedd addysgol
- Bod yn ymwybodol eu bod yn westeion gwadd a disgwyl y lleiaf posibl gan yr ysgol
- Dangos parch a sensitifrwydd at y rhai o grefyddau eraill, ac i'r rhai heb ffydd
- Cyflawni'r gofynion diogelu perthnasol sy'n cael eu hamlinellu ym Mholisi Diogelu a Chod Ymddygiad Agor y Llyfr
- Mynychu Hyfforddiant Craidd Agor y Llyfr cyn mynd i mewn i'r ysgol am y tro cyntaf, ac yna mynychu hyfforddiant gloywi bob tair blynedd
- Bod yng nghwmni parhaus staff yr ysgol yn ystod pob sesiwn adrodd stori.
- Parchu hawlfraint deunydd Agor y Llyfr
- Diweddaru cofnodion y tîm a'r ysgolion gyda Chymdeithas y Beibl

## Beth sydd rhaid i mi wneud i ddod yn storïwr?

1. Mynd i'n gwefan i ddarganfod mwy.
2. Archebu lle a mynychu sesiwn hyfforddi Agor y Llyfr.
3. Cael eich recriwtio'n ddiogel gan eich eglwys neu sefydliad.
4. Mynd at ysgol a gweld a ydynt yn hapus i chi ymweld â nhw.
5. Ymunwch neu cychwynnwch dîm.

Wrth ymuno neu ddechrau tîm, mae aelodau llawn yn derbyn eu copi eu hunain o *Feibl y Storïwr* a'r *Llawlyfr* ac yn cael mynediad i'n hardal aelodau AyLl sy'n llawn adnoddau defnyddiol

**Dewch i adrodd storïau!**

Mae Agor y Llyfr yn gyfle i'n plant gael dealltwriaeth ddyfnach o storïau allweddol y Beibl. Mae'r gwasanaethau'n helpu datblygu ysbrydolrwydd a moesoldeb ein plant fel rhan o'n cwricwlwm YMCD.

**Pennaeth**



## Sut mae Agor y Llyfr o fudd i ysgolion?

- Mae'n rhoi cyswllt i'r ysgol gyda'r gymuned
- Mae'n darparu cyfleoedd i adeiladu perthnasoedd traws-genhedlaeth
- Mae'n darparu amser i fyfyrio tawel y mae gofyn i ysgolion adeiladu i mewn i'w diwrnod ysgol
- Mae'n gwneud gwasanaeth ysgol deniadol
- Mae wedi ei weld yn gadarnhaol mewn adroddiadau ysgol swyddogol
- Mae'n rhad ac am ddim i'r ysgol
- Nid oes angen unrhyw waith na chynllunio ychwanegol gan staff yr ysgol
- Mae'n llwyddiannus mewn cyd-destunau aml-ffydd

Mae staff mewn ysgolion yn gwerthfawrogi Agor y Llyfr oherwydd maen nhw'n gwybod yn union beth sydd wedi'i ddweud ac yn gallu ateb yn hyderus unrhyw gwestiynau y gallant gael eu holi am gynnwys y gwasanaeth.

## Rwyf am wybod sut mae'n cael ei gyflwyno yn ysgol fy mhlentyn ...

Efallai bod gennych gwestiynau am AyLl, felly'r peth gorau i'w wneud yw siarad â'ch ysgol yn gyntaf. Gallant roi gwybod ichi sut y cyflwynir AyLl yn eich ysgol.

Gallwch hefyd edrych ar ein gwefan a chysylltu â ni gydag unrhyw gwestiynau.

## Hoffwn gael tîm Agor y Llyfr i ymweld â fy ysgol ...

Cysylltwch yn gyntaf â'ch eglwys/eglwysi lleol i weld os oes tîm AyLl yn eich ardal. Os nad oes gan eglwys/eglwysi lleol dîm AyLl, rhannwch ein gwefan gyda nhw a'u gwahodd nhw i ddechrau tîm.

Fel arall, gallwch gysylltu â ni a byddwn yn ceisio helpu.

- Mae Agor y Llyfr yn **ymwneud ag adrodd hanesion y Beibl**, nid pregethu neu efengylu, fel y gall plant o bob ffydd a'r rhai hynny sydd heb ffydd wylio a rhyngweithio â'r straeon yn eu ffordd eu hunain
- Mae Agor y Llyfr yn **rhaglen wedi'i sgriptio** a gofynnwn i bob Storïwr gadw at y sgript
- Mae llawer iawn o ofal a sylw wedi mynd i mewn i sicrhau bod y straeon a sgriptiau gwasanaethau yn dderbyniol **ac yn hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf posibl**
- Mae'r sgript hefyd yn caniatáu i blant o bob ffydd a'r rhai sydd heb ffydd i benderfynu a hoffent **ymuno â'r weddi neu beidio**

## Cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â ni.

**contactus@biblesociety.org.uk**

**biblesociety.org.uk/get-involved/open-the-book**

**01793 418355**

Argraffwyd ar bapur ardystiedig FSC® - ailgylchwch. Mae Cymdeithas y Beibl wedi ymrwymo i gynaliadwyedd a gofalu am y byd a greodd Duw

Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green, Westlea, Swindon SN5 7DG
Elusen gofrestredig 232759 | PR000720